Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gyda'n Gilydd

**EIN GWELEDIGAETH**
I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**OUR VISION**
To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC #YourMAWWFRS

This document is also available in English

www.tancgc.gov.uk

# Amdanom ni

Mae'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud. Rydyn yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer y tymor hwy. Mae ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn amlygu sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'n amlinellu sut yr ydym yn bwriadu eu hwynebu a'u lleihau, gan sicrhau ar yr un pryd bod ein hasedau a'n hadnoddau yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cwmpasu'r ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr, sef 4,500 milltir sgwâr ar draws chwe ardal awdurdod lleol - Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Rydym yn gwybod bod ein cymunedau'n newid, ac mae angen i ni newid hefyd. Mae arnom eisiau gallu addasu i gwrdd â'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.

Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Rheoli Risg Cymunedol, wedi'i gymeradwyo, sy'n tynnu sylw at sut rydyn ni'n bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a sut rydyn ni'n bwriadu eu hwynebu a'u lleihau, gan sicrhau bod ein hasedau a'n hadnoddau yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'r mathau o ddigwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt wedi newid, ynghyd ag anghenion ein cymunedau a'r hyn y maent yn ei ofyn gennym.

## Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi mynd i: (5 mlynedd yw 2019/20 hyd at 2023/2024)

- **2,342 o danau tŷ**
- **886 o danau annomestig**
- **3,727 o ddamweiniau ar y ffyrdd**
- **3,975 o danau glaswellt a choedwigaeth**
- **1,911 o ddigwyddiadau llifogydd**
- **5,732 o ymatebion meddygol**

## Ystadegau ein presenoldeb tân dros y 10 mlynedd diwethaf

| Tanau Bwriadol | Tanau Damweiniol | Tanau Mewn Cartrefi | Tanau Annomestig |
| --- | --- | --- | --- |
| Wedi ei leihau gan 24% | Wedi ei leihau gan 27% | Wedi ei leihau gan 27% | Wedi ei leihau gan 29% |

## Ein prif fusnes yn awr yw

- Gwasanaeth Arbennig Galwadau
- Traffig Ffyrdd Gwrthdrawiadau
- Achub Dŵr
- Achub Anifeiliaid
- Achub Llinell
- Ymatebion Meddygol
- Tanau Gwyllt
- Llifogydd

Golygir hyn bod angen inni newid y ffordd yr ydym yn gweithredu a sicrhau bod ein hasedau a’n hadnoddau yn cael eu defnyddio’n llwyddiannus ac yn effeithlon.

# Digwyddiadau ymateb meddygol dros y 5 mlynedd diwethaf






# Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd yr aethpwyd iddynt dros y 10 mlynedd diwethaf






# Tanau glaswellt dros y 10 mlynedd diwethaf gyda thanau gwyllt dros un hectar o faint






# Digwyddiadau llifogydd ac achub dŵr yr aethpwyd iddynt dros y 10 mlynedd diwethaf






# Tanau yn y cartref dros y 10 mlynedd diwethaf






## Gan gydnabod anghenion newidiol cymunedau lleol, bydd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 yn parhau i fod yn hyblyg, gan ganiatáu i'r Gwasanaeth barhau i addasu i newidiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, trwy baru adnoddau â risg

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 yw diogelu'r Gwasanaeth at y dyfodol drwy sicrhau bod y bobl iawn yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau a'r offer iawn i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Er mwyn llunio Gwasanaeth Tân ac Achub modern sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymunedau, rydym am glywed eich syniadau, heriau, profiadau a disgwyliadau. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn a bydd eich adborth yn helpu i sicrhau ein bod yn nodi unrhyw risgiau a heriau canfyddedig ac yn teilwra ein gwasanaethau'n briodol. Mae gennym rai syniadau am feysydd y gellid eu newid, yn seiliedig ar yr hyn y mae ein data yn ei ddweud wrthym ac yn sgil y materion a'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd, ac amlinellir y rhain yn fanylach yn y ddogfen hon.



# Cost y Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i wario arian yn gyfrifol a'i wario lle y bydd fwyaf effeithiol. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni atal ac addysg i wneud Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle diogel i fyw ac i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei dderbyn drwy ardoll gan y chwe Awdurdod Unedol yn ein hardal. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar y boblogaeth. Ein cyllideb ar gyfer 2024/25 yw £68,554,900.

## Sut Rydym yn ei Wario

Rydym yn defnyddio ein cyllid i ddarparu ystod eang o wasanaethau sy'n cynnwys gweithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb. O ran y gyllideb:

- mae 74% yn cael ei wario ar weithgareddau Gweithredol
- mae 18% yn cael ei wario ar weithgareddau Anweithredol
- ac 8% ar Ariannu Cyfalaf a Phrydlesu

Mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn seiliedig ar risg yn hytrach na galw. Mae amrywiaeth y risgiau, dros ardal ddaearyddol enfawr, yn amrywio o:

- Ddiwydiannau petrogemegol mawr yn Aberdaugleddau a Llansawel
- Cytrefi poblog iawn yn Abertawe, Port Talbot a Llanelli
- Arfordir helaeth gyda phorthladdoedd rhyngwladol mawr a dyfrffyrdd mewndirol helaeth
- Cymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd cyllidebol ond mae'n wynebu heriau ariannol wrth gyflawni ei holl gyfrifoldebau yn wyneb ansicrwydd a chyfyngiadau cyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n effeithio ar ei holl Awdurdodau Cyfansoddol. Gyda chyllideb refeniw flynyddol o £68.5m, mae'r Gwasanaeth, drwy ei strategaeth CRMP 2040, wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd a pharhau i ddarparu ymateb o ansawdd uchel i'r Cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Credwn ein bod yn rhoi gwerth gwych am arian. Dim ond **£6** y mis y mae'r gwasanaeth 24/7 a ddarparwn i bob un ohonoch yn ein cymunedau yn ei gostio i chi.

Rydym yn parhau i adolygu ein cyllideb yn feirniadol trwy gael trafodaeth barhaus ac agored gyda staff, Aelodau'r Awdurdod Tân a'n cymunedau ynghylch sut y gallwn barhau i wneud gwelliannau a bod yn effeithlon yn y dyfodol.

# Cadw eich cymuned yn ddiogel

Mae ein 58 o orsafoedd tân yn cwmpasu tua **4,500** milltir sgwâr gyda phoblogaeth o dros **912,218** yn byw mewn mwy na **440,414** o aelwydydd, ac rydym yn mynd i dros **13,000** o ddigwyddiadau bob blwyddyn.



# Gweithio gyda'n cymunedau

**Fel Gwasanaeth, rydym wedi:**



Cyflawni 69,662 o wiriadau diogelwch yn y cartref ar draws ein cymunedau



Ymgysylltu â dros 163,190 o blant a phobl ifanc drwy raglenni addysg ac atal, ac wedi




Cynnal 13,763 o Archwiliadau Diogelwch Tân mewn Adeiladau.

# Yr angen am newid... Moderneiddio ein Gwasanaeth Tân ac Achub

Yn ogystal â'n gwasanaeth rheng flaen, rydym yn gwybod bod angen i ni drawsnewid llawer o feysydd yn ein Gwasanaeth.



**Y newid yn natur risgiau ac argyfyngau** - Mae cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru yn newid, ac felly hefyd y mathau o ddigwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt. Mae ein presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â thân wedi lleihau, a hynny'n rhannol oherwydd y pwyslais ar atal ac amddiffyn. Gellir gweld effeithiau newid hinsawdd gyda chynnydd yn nifer yr achosion o danau gwyllt, llifogydd a thrychinebau naturiol yr ydym wedi mynd iddynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



**Anghenion cymunedol** - Mae data diweddar y cyfrifiad yn dangos sut mae ein cymunedau'n newid. Rhwng cyfrifiad 2011 a 2021, tyfodd y boblogaeth gyffredinol lai nag 1%, cynyddodd nifer y bobl dros 65 oed 18%. Mae pobl yn byw yn llawer hirach ac mae eu hanghenion unigol yn newid. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi mynd i 16,209 o Alwadau Gwasanaeth Arbennig a 5,732 o alwadau ymateb meddygol. Mae nifer yr achosion o lifogydd, achub ac amddiffyn eiddo rhag effeithiau niweidiol dŵr a halogiad hefyd wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



**Gwell diogelwch ac atal** – Mae'r presenoldeb mewn tanau bwriadol wedi parhau i leihau dros y blynyddoedd, oherwydd y pwyslais ar raglenni atal ac amddiffyn a rheoliadau adeiladu.



**Gwella ein diwylliant sefydliadol** – Rhaid inni wella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.



**Lleihau ein hôl troed carbon -** Mae angen inni sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd ecogyfeillgar a chynaliadwy, felly mae angen i ni chwarae ein rhan i alluogi Cymru i gyflawni Sero Net, mae angen inni archwilio tanwyddau amgen ar gyfer ein fflyd o beiriannau, ac mae angen inni sicrhau bod ein hadeiladau'n cael eu hadfywio i leihau eu hôl troed carbon.



**Technoleg** - Mae datblygiadau technolegol wedi trawsnewid galluoedd ac effeithiolrwydd y Gwasanaethau Tân ac Achub modern a gallant helpu i wella effeithiolrwydd cyffredinol y Gwasanaeth a lleihau'r risgiau i ddiffoddwyr tân a chymunedau.

# Beth allai newid ...

## Lleoliadau Gorsafoedd Tân

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gorsafoedd tân ar draws ardal y Gwasanaeth yr un fath â phan gawsant eu hadeiladu yn ôl yn y 1940au. Mae angen i ni ddeall a yw gorsafoedd tân yn y lleoliadau cywir ac a oes ganddynt y bobl, yr offer a'r peiriannau cywir i amddiffyn cymunedau.

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu o 58 o leoliadau Gorsaf ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae chwech o'r Gorsafoedd hyn yn gweithredu system sifftiau 2-2-4 Amser Cyflawn sy'n sicrhau bod staff yn gweithio o leoliad yr Orsaf 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae saith o'r Gorsafoedd hyn yn gweithredu System Criw Dydd Hyblyg (FDCS). Mae'r System Criw Dydd Hyblyg yn gweithredu ar yr egwyddor bod yr orsaf yn cael ei chriwio ar sail amser cyflawn yn ystod oriau a bennwyd ymlaen llaw; y tu allan i'r cyfnodau hyn mae gorsafoedd yn cael eu criwio gan gyfuniad o bersonél y System Criw Dydd Hyblyg a'r personél Ar Alwad sydd wedi'u penodi i'r system Ar Alwad yn unig.

Mae Ar Alwad yn golygu eu bod yn cael eu criwio gan bersonél yn unig, y telir ffi gadw iddynt, ac sy'n cyflenwi hyd at 120 awr yr wythnos o'u prif gyflogaeth neu gyfeiriad cartref ac yn ymateb i'r Orsaf os cânt eu hysbysu a'u bod ar gael.

Gorsafoedd gwirfoddol yw'r ddwy orsaf sy'n weddill, yn Borth ac Ynys Bŷr.



## Gwasanaethau atal ac amddiffyn

Mae arnom eisiau sicrhau bod ein hymyriadau diogelwch tân yn y cartref yn seiliedig ar bobl a'r risgiau y maent yn eu hwynebu, felly byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r ffordd y mae gwasanaethau atal ac amddiffyn yn cael eu darparu. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ein helpu i dargedu adnoddau i atal digwyddiadau rhag digwydd a sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r bobl mwyaf bregus mewn cymunedau.

## Trefniadau'r Ddarpariaeth Frys

Pan fydd digwyddiadau yn digwydd, rhaid i ni sicrhau bod gennym drefniadau cynaliadwy a bod ein pobl yn y lle iawn, gyda'r offer iawn, yn defnyddio'r sgiliau gorau.

## Technegau a thactegau diffodd tân

Mae angen i ni sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau a'r hyfforddiant gorau er mwyn iddynt allu gwneud eu gorau glas i'ch cadw chi a nhw eu hunain yn ddiogel. Gan gydnabod natur newidiol y digwyddiadau rydym yn mynd iddynt, mae angen i ni hefyd gyflwyno technegau a thactegau diffodd tân newydd.

## Adfywio ystad y Gwasanaeth

Mae llawer o'r gorsafoedd tân ar draws ystad y Gwasanaeth wedi dyddio ac nid oes ganddynt yr isadeiledd sydd ei angen i gefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub modern, er enghraifft, i gynorthwyo gyda rheoli halogion. Maent hefyd yn aneffeithlon o ran defnydd ynni ac nid ydynt yn amgylcheddol gynaliadwy. .

## Cerbydau a pheiriannau

Mae angen i ni sicrhau bod ein hoffer a'n peiriannau yn adlewyrchu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwarchod. Nid yw ein model presennol o gael yr un injan dân ym mhob gorsaf gyda'r un offer yn gynaliadwy ac mae angen i ni deilwra ein dull yn unol â hynny. Mae rhai gorsafoedd yn mynd i lawer mwy o danau glaswellt na thanau yn y cartref, mae rhai gorsafoedd yn mynd i fwy o wrthdrawiadau ar y ffyrdd nag o ddigwyddiadau llifogydd a gorsafoedd eraill yn mynd i fwy o ddigwyddiadau ymateb meddygol, felly, mae angen inni sicrhau bod ganddynt yr offer cywir.

## Sgiliau Arbenigol

Mae adolygu sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda i fynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu cymunedau.

## Prosesau Busnes

Bydd moderneiddio prosesau busnes yn helpu i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol drwy addasu i newidiadau mewn technoleg. O'r ffordd rydym yn recriwtio i'r llwyfannau digidol a ddefnyddiwn, mae'n bwysig buddsoddi mewn dod yn Wasanaeth craffach sy'n cael ei yrru gan dechnoleg.

# Pam mae angen eich mewnbwn arnom

Fel y soniwyd eisoes, mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud.

Mae arnom eisiau gwybod beth yw eich barn a beth yw eich disgwyliadau o Wasanaeth Tân ac Achub modern. Mae'n holl bwysig ein bod yn deall barn, safbwyntiau a disgwyliadau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae arnom eisiau gwybod beth sydd bwysicaf i chi, boed hynny ynghylch amseroedd ymateb, cael mwy o bwyslais ar addysg a'n mentrau atal ac amddiffyn, diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub modern neu gael mwy o fewnbwn ac ymwneud mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Nid oes neb yn deall anghenion eu cymunedau a'r heriau a'r materion posibl y gallai'r Gwasanaeth eu hwynebu yn well na'r bobl sy'n byw yn y gymuned honno. Mae'r wybodaeth am risgiau lleol, heriau cymunedol a materion sy'n datblygu yn hanfodol i'n helpu i deilwra'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol ag arfer gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ei fod yn caniatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, gan roi dealltwriaeth werthfawr a all helpu i wneud penderfyniadau effeithiol.

Mae gwrando ar farn staff, cymunedau, sefydliadau partner, undebau llafur, aelodau etholedig a phobl ledled canolbarth a gorllewin Cymru yn hynod bwysig i ni a byddwn yn siarad â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf i ddysgu am eu disgwyliadau o'r Gwasanaeth.

**MAE EICH BARN YN BWYSIG**

# Mae eich barn yn bwysig... sut gallwch chi gymryd rhan

Y cam cyntaf mewn proses ymgysylltu eang yw ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i helpu i ddiffinio unrhyw faterion neu heriau y gall y Gwasanaeth eu hwynebu wrth gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio ar draws ardal y Gwasanaeth ac rydym yn eich annog i ddod draw i roi eich barn i ni am yr hyn rydych chi'n ei ddisgwyl gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a pha heriau y teimlwch y gall y Gwasanaeth eu hwynebu wrth gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040  Bydd gweminarau ar-lein yn cael eu trefnu hefyd, a bydd y manylion yn cael eu hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag arolwg ar-lein.

Nod y broses hon yw ein helpu i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn cael eu deall a'u defnyddio gan randdeiliaid, a deall mwy am anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a pha heriau a materion y maent yn eu hwynebu, cyn edrych ar opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol. Mae arnom eisiau gwybod beth sy'n bwysig i chi a beth yw eich barn am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Trwy roi eich adborth i ni, byddwch yn helpu i lunio dyfodol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rydym yn eich annog i gyd i ddweud eich dweud.

# Y Camau Nesaf

Gallwch rannu eich barn drwy gwblhau ein harolwg, na ddylai gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau. Os hoffech gael yr arolwg hwn mewn iaith/fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar 0370 6060699.

Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r cam hwn yn cael ei gwerthuso i benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol, a allai gynnwys ymgynghoriad ffurfiol. Rydym yn croesawu eich sylwadau a'ch awgrymiadau ac yn eich annog i ddweud eich dweud ar sut y gallwn wella fel Gwasanaeth Tân ac Achub.

